DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mawrth 1 Mehefin 2010

Gwaith Tîm Adran Chwaraeon yr Urdd

Mae Adran Chwaraeon yr Urdd wedi cael blwyddyn hynod lwyddiannus arall, gyda 40,000 yn cystadlu yn y rowndiau lleol a chenedlaethol mewn pob math o gampau, 80,000 yn cymryd rhan mewn sesiynau blasu chwaraeon, 24,000 o aelodau yn mynychu clybiau chwaraeon wythnosol a 1,000 o arweinwyr chwaraeon newydd wedi eu hyfforddi.

Cafwyd uchafbwynt lliwgar i'r flwyddyn yng nghanol mis Mai pan ddaeth dros 1,000 o blant i Aberystwyth i ymuno yn ysbryd Llundain 2012 a chymryd rhan yng Ngŵyl Chwaraeon flynyddol Urdd Gobaith Cymru. Wrth gystadlu mewn cystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd a thraws gwlad, roedd y plant 8, 9, 10 ac 11 mlwydd oed o bob rhan o Gymru yn cynrychioli, nid yn unig eu rhanbarthau, ond hefyd gwledydd ar draws y byd sy'n cymryd rhan yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012. Yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr elfen newydd yma o'r Ŵyl yw'r gemau Olympaidd sy'n cyrraedd Prydain Fawr ymhen dwy flynedd, ar 27 Gorffennaf 2012.

"Roedd ein Gŵyl Chwaraeon yn un hynod gyffrous eleni," esbonia Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru. "Gyda Llundain 2012 yn ysbrydoliaeth i'r plant, roedd y digwyddiad yn un lliwgar, gyda'r 17 rhanbarth yn codi baner gwledydd Olympaidd ar draws y byd. Roedd y rhai gymerodd ran yn y chwaraeon yn gwisgo crysau-t eu gwlad i gynrychioli eu timau arbennig. Rydym yn hynod ddiolchgar i Legacy Trust UK am eu cymorth ariannol, ac yn gobeithio i'r diwrnod ddangos i aelodau'r Urdd bod egwyddorion y gemau Olympaidd o ymdrechu am ragoriaeth, parch, cyd-weithio a dealltwriaeth hefyd yn berthnasol i ieuenctid Cymru yn eu cystadlaethau chwaraeon nhw."

Dywedodd Rhiannon Williams, athrawes yn Ysgol Gynradd Tywyn ym Mhort Talbot: "Cawsom ddiwrnod ardderchog – awyrgylch wych a chefnogwyr positif a chalonogol. Roedd y crysau t yn plesio'n fawr a'r plant wrth eu bodd yn eu gwisgo. Roedd yr ysgol yn cynrychioli'r Eidal, ac roedd yn gyfle gwych i'r disgyblion ddysgu mwy am y Gemau Olympaidd, a'u pwysigrwydd i ni yma yng Nghymru. Mae'n dod â chenhedloedd ynghyd,

gan arddangos i'r byd athletwyr gorau'r deyrnas. Pwy a ŵyr, efallai bod pencampwyr Olympaidd y dyfodol ymhlith sêr ifanc cystadlaethau'r Urdd!"

Yn ôl **Dugald Mackie**, Cadeirydd Legacy Trust UK: "Mae Legacy Trust UK yn falch o ariannu'r prosiect yma, a gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru gan roi'r cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon newydd. Bydd manteision y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd i'w deimlo ledled y Deyrnas Unedig yn ogystal â Llundain. Mae'r gemau hyn yn gyfle i ddangos Cymru i filiynau o bobl ar draws y byd. Rydym yn credu y bydd prosiectau fel Gŵyl Chwaraeon yr Urdd yn ysbrydoli ac annog pobl ifanc drwy Gymru gyfan i gymryd rhan, gan adael ei ôl wedi'r digwyddiad."

Yng Nghymru, mae prosiect 'Grym y Fflam' a ariennir gan Legacy Trust UK yn hyrwyddo diwylliant, chwaraeon ac addysg i bobl ifanc ar bob lefel, hyd yn oed wedi i Gemau Llundain fynd a dod. Fel yr eglura **Gwyn L Williams**, sy'n enedigol o Ynys Môn, ac yn Rhaglennydd Creadigol Cymru ar gyfer Llundain 2012:

"Mae Urdd Gobaith Cymru yn elfen bwysig o gynlluniau Cymru wrth ddathlu Llundain 2012. Fel y sefydliad ieuenctid mwyaf sy'n hyrwyddo diwylliant ac addysg yn Ewrop, rydym yn hynod falch o'u rhan ym mhrosiect 'Grym y Fflam' a'r Ŵyl Chwaraeon yn ogystal â'u prosiect arall, Theatr Ieuenctid Cenedlaethol, a phrosiect llynedd, Hwyl yr Haf yn Sain Ffagan. Mae'r gemau Olympaidd yn ein hatgoffa o fwriad gwreiddiol yr Olympiad o fynd ati i drefnu digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol law yn llaw."

Gydag wythnos brysur o gynnig sesiynau chwaraeon o bob math ar faes yr Eisteddfod yn Llanerchaeron, mae'r Adran Chwaraeon yn edrych ymlaen at benodi aelod arall i'r tîm dros yr haf diolch i grant gan Gyngor Bro Morgannwg. Meddai Gary Lewis, Cyfarwyddwr Chwaraeon yr Urdd:

"Rydym yn ddiolchgar iawn i'n harianwyr oll, gan gynnwys Cyngor Chwaraeon Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, amrywiol awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethol, ac ein partner mwyaf diweddar, Cyngor Bro Morgannwg. Drwy gydweithio'n helaeth rydym yn falch iawn o allu cynnig darpariaeth chwaraeon sy'n boblogaidd iawn gan aelodau'r Urdd, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg."

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Tuesday 1 June 2010

Urdd Sports Department'sTeamwork

Urdd Gobaith Cymru's Sport Department has enjoyed another successful year with 40,000 members competing in the local and county sport rounds, 80,000 taking part in sport taster sessions, 24,000 Urdd members attending weekly sports clubs and 1,000 new sport leaders trained.

Urdd Gobaith Cymru's annual Sports Festival at Aberystwyth last month was a colourful highlight to all the activity. Over 1,000 Urdd children joined in the spirit of London 2012 to participate in football, netball and cross country competitions. The 8, 9, 10 and 11 year old youngsters from across Wales not only represented their Welsh counties this year, but also represented countries from across the world participating in the Olympic games in London 2012. The inspiration for this new element of the event is the Olympic Games which will be held in the UK in two years time, beginning on 27 July 2012.

"Our Sporting Festival was a very exciting event this year," explains Efa Gruffudd Jones, Urdd Gobaith Cymru's Chief Executive. "London 2012 being the inspiration for the youngsters, the event was colourful, with Wales' 17 counties flying the flag of the Olympic countries from across the globe. The youngsters participating in the sporting events also wore their 'country's' t-shirts to represent their individual teams. We are extremely grateful to Legacy Trust UK for their financial support, and hope that the day assisted in showing Urdd members that the Olympic's principles of striving for excellence, respect, co-operation and mutual understanding is also relevant to these Welsh youngsters in their sporting competitions."

Primary school teacher, Rhiannon Williams from Tywyn Primary School in Port Talbot said: "We had a fabulous day – fantastic atmosphere and positive and encouraging supporters. The t-shirts were a great idea and the children loved wearing them. Our school represented Italy, and I believe it was a great opportunity for the pupils to learn more about the Olympic Games, and their importance to us in Wales. It brings so many nations together, and showcases great world-class athletes. Who knows, we may even have a budding Olympic winner in the making at the Urdd competitions!"

Dugald Mackie, Chair of Legacy Trust UK said: "Legacy Trust UK is pleased to be funding this project and working with Urdd Gobaith Cymru to give young people the opportunity to get involved in new sporting activities. The benefits of the 2012 Olympic and Paralympic Games will be felt not just in London but throughout the UK. The Games are a once in a lifetime opportunity to showcase Wales to millions of people across the world. We believe that projects like The Urdd's Sports Festival will inspire and encourage young people throughout Wales to get involved and will help leave a lasting legacy for the country."

In Wales, the 'Power of the Flame/ Grym y Fflam' project funded by Legacy Trust UK is promoting culture, sport and education for youngsters at grassroot level even after London

2012 has been and gone. Anglesey born Gwyn L Williams, Wales' Creative Programmer for London 2012 explains:

"Urdd Gobaith Cymru is an important element of Wales' plans in celebrating London 2012. As the largest youth organisation in Europe to promote culture and education, we are extremely grateful to them for their input to Grym y Fflam project at the Sports Festival as well as another of the Urdd's projects which is the re-formed National Youth Theatre, and last year's project, 'Hwyl yr Haf' at St Fagans. This combination of the arts and sports reminds us of the original vision of the Olympic Games which is the integration of sporting and cultural events."

This week the Sport Department are running taster sessions all week on the Eisteddfod Maes in Llanerchaeron, and they're also looking forward to welcoming a new member to the team over the summer to work in the Vale of Glamorgan. Gary Lewis is Urdd Gobaith Cymru's Sport Director:

"We are grateful to our financers, the Welsh Sport Council, the Welsh Language Board, the various local authorities and governing bodies, and our newest partner, the Vale of Glamorgan Council. Through extensive partnerships, we are proud to be able to offer all kinds of sporting activities to Urdd members, and all through the medium of Welsh."

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.